Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Safonau Dysgu ac Addysgu Digidol

**CONTENTS**


**CYFLWYNIAD** p1
**ADRAN 1** RHESTR WIRIO p2-3
**ADRAN 2** ARFER DA p4-5


## CYFLWYNIAD

Gyda dysgu ac addysgu ar-lein yn dod yn ddull cyflwyno craidd ar gyfer addysg uwch, mae'r Brifysgol wedi edrych eto ar Safonau Sylfaenol y Rhith-amgylchedd Dysgu gan addasu egwyddorion y ddogfen strategol honno i adlewyrchu'r newid paradeim. Mae'r Safonau Dysgu ac Addysgu Digidol hyn wedi'u creu er mwyn darparu meincnod eglur a hygyrch ar gyfer staff o ran llunio a chyflwyno dysgu digidol effeithiol iawn, boed hynny'n gysylltiedig â chyfuniad o gyflwyno ar-lein ac wyneb yn wyneb neu'n fodel sy'n gyfan gwbl ar-lein. Maent wedi'u hysgrifennu gan gyfeirio at arfer da cydnabyddedig o ran dysgu ac addysgu digidol, gan gynnwys cyfarwyddyd gan Advance HE, yr ASA a JISC, ac maent wedi'u cyflwyno mewn strwythur y bwriedir iddo ddarparu cyfarwyddyd cyflym a hwylus ynghyd â chyngor mwy manwl.

Mae'r Safonau hyn yn rhan o ddull ehangach y Drindod Dewi Sant o ran Dysgu Cyfunol a phan fo'n bosibl maent yn adlewyrchu egwyddorion canllaw'r sefydliad yng nghyswllt dysgu cyfunol, sef:

**Cwricwlwm** | **Addysgeg** | **Tegwch** | **Llesiant**

**Ymchwil** | **Dulliau asesu** | **Dysgu proffesiynol** | **Arweinyddiaeth**

Seilir y safonau ar y defnydd o dair elfen graidd o ran technoleg sy'n ganolog i ddysgu ac addysgu digidol yn y Drindod Dewi Sant:

### 1. Rhith-amgylchedd Dysgu

Mae'r rhith-amgylchedd dysgu'n darparu'r platfform craidd ar gyfer cyflwyno cynnwys modylau ac asesu. Hwn yw'r strwythur y dylid seilio modylau ar-lein arno yn unol â'r disgwyliadau a nodir yn y ddogfen hon er mwyn darparu amgylchedd dysgu digidol effeithiol ar gyfer dysgwyr.

### 2. Communication & Collaboration

Mae cyfathrebu a chydweithredu ar-lein yn ategiad dynamig i dudalennau modylau ar rith-amgylchedd dysgu. Gellir llunio dolenni uniongyrchol rhwng y ddau blatfform er mwyn creu profiad dysgu cydamserol sy'n manteisio ar bosibiliadau perthynol y ddau.

### 3. Creu Fideos

Mae defnyddio fideos yn rhan allweddol o gyflwyno addysgu ar-lein ac mae'n caniatáu i staff greu adnoddau sy'n ennyn diddordeb gan ddefnyddio offer megis integreiddio ffeiliau PowerPoint, ffynonellau fideo niferus, penawdau awtomatig, cwisiau a thrafodaeth cynwysedig, golygu greddfol a rhannu hyblyg.

**ADRAN 1 RHESTR WIRIO**

Beth sydd angen imi ei gynnwys yn fy modwl?

# CYNNWYS

## Adran Gwybodaeth am y Modwl

Yn ddelfrydol yr adran Gwybodaeth am y Modwl ddylai fod yr adran gyntaf a dylai gynnwys holl ddogfennau angenrheidiol y cwrs gan gynnwys y canlynol:

- Llawlyfr Rhaglen Astudio,
- Manyleb y modwl/trosolwg/cynllun gwaith
- Gwybodaeth berthnasol am yr amserlen
- Amserlen asesu

## Adran Asesu

Yn ddelfrydol yr Adran Asesu ddylai fod yr ail adran a dylai nodi'n glir fanylebau asesiadau, dolenni cyflwyno gwaith, canllawiau cyflwyno gwaith, dolen â **Pholisi Camymddwyn Academaidd** y Drindod Dewi Sant a dyddiadau terfyn aseiniadau wedi'u harddangos yn flaenllaw. Cuddiwch hen fanylebau cyflwyno gwaith a dolenni er mwyn osgoi dryswch.

## Dulliau addysgu amrywiol

Dynodwch a defnyddio amrywiaeth o ddulliau ar gyfer cyflwyno cynnwys er mwyn cynnal cydbwysedd rhwng osgoi profiad undonog a sicrhau rhywfaint o gysondeb. Dynodwch ba ddull cyflwyno sydd fwyaf addas ar gyfer y wybodaeth berthnasol, y math o gwrs (e.e. yn gyfan gwbl ar-lein neu'n gyfunol) a'ch myfyrwyr. Mae opsiynau'n cynnwys dogfennau PDF, Llyfr(au) Moodle, Fideo wedi'i Fewnosod (wedi'i recordio o Panopto neu Teams) a Chyflwyniadau (e.e. Sway, Spark).

## Rhestr Adnoddau ar-lein

Bydd hon yn darparu rhestr ryngweithiol a dynamig ar gyfer y myfyrwyr ar blatfform Rhestrau Adnoddau Ar-lein y Brifysgol, sy'n cynnwys adnoddau dysgu Hanfodol a Phellach y bydd angen i'r myfyrwyr eu cyrchu'n rhan o'r modwl. Dylai Rhestrau Adnoddau Ar-lein gydymffurfio â **Pholisi Rhestrau Darllen y Brifysgol**.

## Adnoddau Ategol gan gynnwys e-lyfrau, erthyglau cyfnodolion, blogiau, dolenni fideo

Darparwch adnoddau ategol ychwanegol o'r Llyfrgell Ar-lein neu adnoddau gwe mynediad agored pan nad yw'n briodol cynnwys y rhain ar y Rhestr Adnoddau Ar-lein. Gallai hyn fod er mwyn rhoi sylw i safbwyntiau eraill, annog meddwl beirniadol a chyfleoedd am astudio pellach. Yn y lle cyntaf dylid defnyddio adnoddau o'r Llyfrgell Ar-lein, ochr yn ochr â gwybodaeth i fyfyrwyr ynghylch sut i gael cefnogaeth drwy'r rhaglen Sgiliau Gwybodaeth er mwyn eu helpu i ddatblygu eu sgiliau chwilio am wybodaeth a'i dadansoddi. Fel rheol gyffredinol, dylid darparu dolen â'r cynnwys ac nid ei lanlwytho i mewn i'r rhith-amgylchedd dysgu oni bai mai chi sydd biau'r cynnwys. Mae cefnogaeth bellach ar sut i wneud hyn ar gael yma (dolen â chyfarwyddyd LIAD ar wefan Teams)

## Adnoddau hygyrch

Sicrhewch y gall dysgwyr sy'n defnyddio technoleg gynorthwyol megis darllenydd sgrin lywio'r dudalen, ac na rwystrir dysgwyr sydd â mynediad cyfyngedig i dechnoleg neu fand eang cyflym rhag cael mynediad i unrhyw ran o'r dysgu. Gweler Rhestr Wirio Hygyrchedd y Drindod Dewi Sant i gael manylion llawn, ond er enghraifft rhaid i chi wneud y canlynol:

- Darparu disgrifiad testun a/neu bennawd ar gyfer pob llun a ddefnyddir
- Defnyddio dolenni a theitlau adnoddau disgrifiadol – e.e. peidiwch â defnyddio "cliciwch yma" ar gyfer dolenni. Yn lle hynny gwnewch yn siŵr fod testun y ddolen yn nodi'r cynnwys.
- Darparwch opsiynau "lled band isel" ar gyfer gweithgareddau. Er enghraifft, os byddwch yn cynnal cyfarfodydd byw ar Teams er mwyn rhoi cyfleoedd am drafodaeth, anogwch ddysgwyr na allant fod yn bresennol i anfon cwestiynau neu fewnbwn ymlaen llaw, ymdriniwch â'r rhain yn y sesiwn a sicrhewch fod recordiadau o'r sesiwn y gellir eu lawrlwytho ar gael.

## Cydymffurfio â hawlfraint

Os ydych yn defnyddio lluniau, defnyddiwch y rheini sydd â Chaniatâd Deiliad yr Hawlfraint at ddefnydd addysgol. Gellir cael y rhain o lawer o ffynonellau a cheir cyfarwyddyd yn yr **Hwb Hawlfraint**. Gwyliwch weminar y Brifysgol ar Hawlfraint ar gyfer dysgu ac addysgu a fydd yn darparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i barhau i gydymffurfio (dolen â gweminar ar wefan Teams).

## Defnyddio arddull gyson o ran y testun ym Moodle

- Defnyddiwch faint ffont 12 o leiaf
- Defnyddiwch ffont cynwysedig a'i ddefnyddio'n gyson o fewn modwl
- Defnyddiwch yr arddulliau ffont cynwysedig (Paragraff, Pennawd 1, Pennawd 2 ac ati) i greu hierarchaeth yn y testun yn hytrach nag addasu meintiau ffont â llaw
- Defnyddiwch brint trwm i bwysleisio yn hytrach na phriflythrennau neu danlinellu testun

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# ADRAN 1 RHESTR WIRIO
Beth sydd angen imi ei gynnwys yn fy modwl?

## PRESENOLDEB ADDYSGWYR

### Cyflwyniad personol i'r modwl
Dylai'r tiwtor modwl arweiniol gyflwyno'r modwl yn bersonol gan gyfarch y dysgwyr gyda chynhesrwydd ac anogaeth. Dylai hwn fod yn gyflwyniad ysgrifenedig syml ar frig tudalen y modwl wedi'i ysgrifennu o safbwynt y tiwtor arweiniol, ond gallech hefyd ystyried creu fideo croeso byr. Dylai'r cyflwyniad gynnwys y canlynol:

- Trosolwg o gynnwys y modwl
- Crynodeb o bynciau'r modwl
- Y deilliannau dysgu disgwyliedig
- Manylion y drefn asesu gan gynnwys amserlen a meini prawf asesu
- Beth a ddisgwylir gan y myfyrwyr – e.e. pa elfennau sy'n orfodol, faint o gyfathrebu a ddisgwylir, ymrwymiadau dangosol o ran amser os ydy'n briodol
- Crynodeb o ddull cyflwyno'r modwl – e.e. cyflwyno'r cynnwys, dull trafod, mathau o weithgareddau ac ati

### Llun o'r tiwtor(iaid) arweiniol
Dylai hwn gyd-fynd â'r cyflwyniad i'r modwl

### Manylion ac oriau cysylltu â'r Tiwtor Arweiniol
Nodwch y dull cyfathrebu sy'n well gennych, gan sicrhau y gall defnyddwyr "lled band isel" hefyd gysylltu. Dylech gynnal cydbwysedd rhwng cyswllt cydamserol (Cyfarfodydd Teams, Sgwrsio Byw) a chyswllt anghydamserol (E-byst, postiadau fforymau) er mwyn sicrhau y caiff dysgwyr y cyfle i ymgysylltu â chi'n "fyw" ac fel arall. Nodwch pryd byddwch "ar-lein" a phryd gall dysgwyr ddisgwyl ymateb i gwestiynau ac ymholiadau. Cadwch ddysgwyr yn gyfredol ynghylch unrhyw newidiadau dros dro yn y trefniadau hyn.

### Platfform cyfathrebu sy'n weithredol ac yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd
Mae'n hollbwysig cynnal cyfathrebu rheolaidd gyda dysgwyr ymhob cyd-destun, ond yn enwedig wrth addysgu'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar-lein. Dulliau a argymhellir yw Teams (gallwch ychwanegu dolen uniongyrchol â'r Tîm ar dudalen y modwl) neu Fforymau Moodle. Postiwch sylwadau rheolaidd, promtiau ar gyfer trafodaeth ac adborth ar gyfraniadau dysgwyr.

### Tracio cwblhau gweithgareddau
Galluogwch dracio cwblhau gweithgareddau yn eich modwl a gwirio'r adroddiad ar gwblhau gweithgareddau'n rheolaidd er mwyn dynodi a chefnogi myfyrwyr nad ydynt yn ymgysylltu sydd angen ymyrraeth. Gallwch dracio'r holl weithgareddau neu ddynodi adnoddau allweddol a fydd yn nodi ymgysylltu cyffredinol â'r modwl.

## AMGYLCHEDD DYSGU

### Cyfarwyddiadau eglur ar gyfer tasgau dysgwyr a disgrifiad cyd-destunol o adnoddau
Sicrhewch y cyflwynir adnoddau â thestun perthnasol sy'n esbonio sut maent yn ffitio i mewn i'r profiad dysgu gan ddarparu cyfarwyddiadau cam wrth gam eglur ar gyfer tasgau dysgwyr. Os oes trefn a argymhellir neu sy'n ofynnol ar gyfer cyrchu'r deunyddiau a gweithgareddau dysgu, gwnewch hyn yn eglur i ddysgwyr. Gallwch ychwanegu testun atodol i dudalen modwl ar Moodle yn hawdd drwy ddefnyddio'r offeryn Label o'r ddewislen "Ychwanegu gweithgaredd neu adnodd".

### Tudalen modwl drefnus ac eglur
Dylech gynnal cydbwysedd rhwng meysydd pwnc sydd â llawer o adnoddau a gorlwytho sy'n arwain at lwythi gwybyddol gormodol. Osgowch annibendod – er enghraifft, defnyddiwch ffolderi os oes gennych fwy na llond llaw o adnoddau ar yr un is-bwnc. Defnyddiwch arddulliau pennawd yn y golygydd testun er mwyn creu teitlau ac is-deitlau i gefnogi symud o gwmpas y dudalen a threfnwch adnoddau'n eglur a mewn modd rhesymegol.

### Trefn resymegol ac â strwythur
Cyflwynwch adnoddau yn y drefn y dylid eu cyrchu er mwyn creu profiad dysgu sy'n llifo a rhowch adnoddau mewn adrannau sy'n ffurfio is-bynciau er mwyn cefnogi dysgu hyblyg mewn pyliau neu dalpiau byr.

### Mynediad i staff Cymorth Myfyrwyr
Sicrhewch fod unrhyw staff cymorth myfyrwyr sydd angen mynediad at fodylau at ddibenion rhoi cymorth i fyfyrwyr wedi'u cofrestru ar y modwl.

## DYSGU GWEITHREDOL

### Tasgau dysgwyr
Sicrhewch y caiff dysgwyr gyfleoedd i gymhwyso'r dysgu a'i ddefnyddio yn ei gyd-destun. Mae enghreifftiau'n cynnwys cwisiau, blogiau, wicis, fforymau, gweithgareddau rhyngweithiol a fideos.

### Gwaith grŵp a chyfleoedd i gydweithredu
Defnyddiwch grwpiau a blogiau/wicis grŵp ym Moodle a/neu sianel Teams gyda dogfennau cydweithredol, wicis, llyfrau nodiadau OneNote er mwyn darparu ardal i ddysgwyr gyd-greu a chyd-ysgrifennu ymatebion i dasgau grŵp.

### Holiadur Gwerthuso Modwl
Ychwanegir Holiaduron Gwerthuso Modwl yn awtomatig i bob modwl newydd.

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

**ADRAN 2 ARFER DA**

Sut gallaf i sicrhau dysgu ac addysgu o ansawdd da?

# CYNNWYS

Mae cynnwys dysgu craidd sydd o ansawdd da, yn hyblyg ac yn hygyrch, wrth wraidd dysgu digidol effeithiol.

**Egwyddorion Canllaw'r Drindod Dewi Sant ar Ddysgu Cyfunol:**

Cwricwlwm | Addysgeg | Tegwch | Llesiant | Ymchwil | Dulliau asesu | Dysgu proffesiynol | Arweinyddiaeth

| Beth ddylwn i ei wneud? | Pam ddylwn i ei wneud? |
|---|---|
| **Adfyfyrio ar ddyluniad eich cwrs** | Nid mater o newid dull cyflwyno'n unig mo symud o ddysgu wyneb yn wyneb i ddysgu ar-lein. Ystyriwch a oes angen i chi ail-ddylunio'ch modwl i'w wneud yn fwy addas ar gyfer mwy o ddefnydd ar-lein, boed hynny ar-lein yn gyfan gwbl neu'n rhan o fodel dysgu cyfunol. Gydag Addysgeg yn un o Egwyddorion Canllaw'r Drindod Dewi Sant, mae'n hollbwysig cydnabod dysgu ac addysgu digidol fel addysgeg benodol ynddo ei hun, boed y modwl ar-lein yn gyfan gwbl neu'n rhan o ddull cyfunol, gan ddylunio'ch dysgu a'ch addysgu yn unol â hynny. Er enghraifft, un model poblogaidd yw dylunio gwrthdro – dechreuwch drwy ddiffinio'r deilliant dysgu arfaethedig, wedyn ystyried y ffordd orau o asesu'r deilliant hwnnw, ac yn olaf coladu'ch cynnwys i gefnogi'r asesiad hwnnw. Rhowch sylw'n benodol i asesu – a ydy'r dull a ddefnyddir ar hyn o bryd yn trosi'n ddiffwdan i'r amgylchedd ar-lein gan gynnal trylwyredd academaidd ar yr un pryd, neu a oes angen i chi ailfeddwl sut y caiff dysgwyr eu hasesu? Pa ddull asesu sy'n cyd-fynd orau â'r hyn maent wedi'i ddysgu a'r modd maent wedi ei ddysgu? |
| **Cyflwyno cynnwys mewn amrywiaeth o gyfryngau** | Bydd defnyddio ystod o ddulliau i gyflwyno cynnwys dysgu'n cefnogi'r ymgysylltu gan y dysgwyr drwy gadw'r dull cyflwyno'n ffres, er dylech hefyd sicrhau lefel o gysondeb drwy beidio â defnyddio nifer llethol o dechnolegau gwahanol. Model cytbwys sy'n defnyddio grŵp dethol o ddulliau cyflwyno i ddarparu'r dysgu yn y ffordd fwyaf effeithiol yng nghyswllt y cynnwys yw'r dull gorau. Mae'r opsiynau'n cynnwys y canlynol:<br>- Cynnwys ysgrifenedig (dogfennau PDF, Llyfr Moodle)<br>- Cyflwyniad Aml-gyfrwng (Adobe Spark, Microsoft Sway)<br>- Fideo anghydamserol / wedi'i recordio (Panopto/Teams)<br>- Fideo cydamserol / byw (Teams)<br>- Gweledol (Lluniau, Ffeithluniau, Diagramau) |
| **Cadw profiadau dysgu'n fyr gan dorri is-byncia u mwy o faint yn "dalpiau"** | Mae ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ymrwymo i allu astudio am gyfnodau hir o amser yn debygol o'u digalonni ac arwain at risg uwch o ymddieithrio. Mae ei gwneud yn bosibl i ddysgwyr digidol ffitio eu dysgu o gwmpas eu bywydau'n allweddol er mwyn cynnal eu diddordeb, eu cadw i ymgysylltu a'u cadw'n fyfyrwyr yn y Brifysgol. At hynny, yn aml mae dysgu annibynnol ar-lein yn gofyn am lefel uwch o ganolbwyntio ac ymdrech gwybyddol na modelau pryd mae'r dysgwyr yn bresennol. Er enghraifft, ni fydd darlithoedd dwyawr o hyd mewn amgylchedd byw yn trosglwyddo'n dda i recordiad fideo. Edrychwch eto ar strwythur eich deunydd a'i dorri'n adrannau llai, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer adfyfyrio, ymarfer a micro asesu (e.e. gweithgaredd H5P, fideo rhyngweithiol ar Clickview) rhwng adrannau er mwyn cadw'r profiad yn ddynamig ac yn iteraidd. |
| **Tynnu sylw at ffynonellau cynnwys ychwanegol** | Mae deunydd darllen pellach, cynnwys fideo trydydd parti a gwefannau oll yn ddefnyddiol i ddysgwyr sy'n dymuno ymchwilio'n fwy manwl i'r deunydd a gall roi safbwyntiau gwahanol ar y cynnwys er mwyn cyfoethogi'r dysgu. |

| Beth ddylwn i ei wneud? | Pam ddylwn i ei wneud? |
|---|---|
| **Darparu ymgysylltu gweledol** | Mae dysgwyr wedi arfer â gweld cynnwys ar-lein megis gwefannau a'r cyfryngau cymdeithasol sydd ar y cyfan yn gymysgfa drefnus o destun a lluniau ac ni ddylai cynnwys dysgu digidol fod yn wahanol. Gall adnoddau sy'n cynnwys gormod o destun effeithio mewn modd sy'n dileu cymhelliad tra bydd cyfuniad o elfennau ar ddull cylchgronau yn haws ac yn fwy cyfforddus i'w ddarllen, a gall defnyddio lluniau cyd-destunol helpu hefyd i atgyfnerthu cynnwys y testun. Defnyddiwch luniau ac elfennau gweledol eraill megis fideo wedi'i fewnosod i dorri testun yn ddarnau. Wrth ddefnyddio fformatau cwrs ar ffurf grid neu deils, defnyddiwch luniau ar gyfer y teils sy'n ategu'r cynnwys. Ystyriwch fewnosod fideos Panopto ond byddwch yn ofalus i beidio â chynnwys gormod ar un dudalen oherwydd gall arafu'r amser llwytho. Tri neu bedwar fyddai'r nifer mwyaf a argymhellir ar unrhyw adeg. |
| **Cyflwyno deunydd craidd yn anghydamserol er mwyn mynediad hyblyg** | Meddyliwch ddwywaith am gyflwyno addysgu cwrs hanfodol gan ddefnyddio galwadau fideo byw. Cofiwch y gallai fod cyfrifoldebau ac ymrwymiadau eraill gan ddysgwyr sy'n golygu na allant ymrwymo i fod yn bresennol ar unrhyw adeg benodol, neu nad oes ganddynt fynediad at ddyfeisiau a mynediad rhyngrwyd priodol i gymryd rhan. Mae hyn yn cefnogi Tegwch a Llesiant, sef dwy o Egwyddorion Canllaw'r Drindod Dewi Sant. Yn achos deunydd craidd, defnyddiwch ddulliau sy'n golygu y caiff myfyrwyr ei gyrchu ar unrhyw adeg, gan gadw galwadau byw ar gyfer trafodaeth atodol, holi ac ateb ac ati. Recordiwch unrhyw sesiynau byw a'u rhoi ar gael i'w lawrlwytho. |
| **Dylunio gweithgareddau atodol i ategu'r cynnwys** | Gall gweithgareddau dilynol gweithredol neu elfennau rhyngweithiol atgyfnerthu'r dysgu drwy ddwysau effaith y cynnwys addysgu a'r ymgysylltu â'r cynnwys hwnnw. Er enghraifft, defnyddiwch nodweddion cwis yn Panopto neu Clickview i ychwanegu haen ryngweithiol i'ch fideos addysgu er mwyn gwella sylw'r myfyrwyr a meithrin ymgysylltu gweithredol â'r pwnc. |
| **Cydweithredu â chydweithwyr ac ystyried Adnoddau Addysg Agored** | Nid oes angen ichi ail-ddyfeisio'r olwyn. Ailddefnyddiwch ddeunydd a'i hailbwrpasu fel y bo'n briodol, a phan fo elfennau cyffredin ar draws modylau, cydweithredwch gyda chydweithwyr i greu adnoddau y gellir eu defnyddio gyda nifer o garfanau. Edrychwch ar Adnoddau Addysg Agored ar-lein sydd wedi eu rhoi ar gael i'w defnyddio'n ddirwystr. Enghraifft o hyn yw Merlot sy'n gadwrfa ryngwladol o ddeunyddiau addysg ar-lein sydd ar gael yn rhad ac am ddim ac yn cael eu curadu gan y gymuned. |
| **Gwirio adnoddau'n rheolaidd** | Sicrhewch fod eich cynnwys yn gyfredol gan wirio'n rheolaidd fod dolenni â'r we'n gweithio. Mae'n gallu bod yn rhwystredig dros ben i ddysgwyr ac effeithio'n negyddol ar eu profiad o'r modwl os oes adnoddau nad ydynt yn gyfredol a/neu ddolenni nad ydynt yn gweithio bellach. |

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

**ADRAN 2 ARFER DA**
Sut gallaf i sicrhau dysgu ac addysgu o ansawdd da?

# PRESENOLDEB ADDYSGWYR

Un o'r agweddau pwysicaf sy'n cael ei cholli wrth symud i ddysgu digidol yw diffyg cysylltiad dynol â thiwtor. Gall dod â'ch presenoldeb a'ch personoliaeth i mewn i fodwl ar-lein helpu ymgysylltu, cymhelliad a momentwm drwy ei wneud yn fwy "real". Mae sicrhau bod y rhyngweithio, y gefnogaeth a'r adborth sy'n digwydd yn organig mewn amgylchedd ar y campws yn cael eu cynnal ar-lein yn rhan hollbwysig o addysgeg ddigidol.

**Egwyddorion Canllaw'r Drindod Dewi Sant ar Ddysgu Cyfunol:**

Cwricwlwm | Addysgeg | Tegwch | Llesiant | Ymchwil | Dulliau asesu | Dysgu proffesiynol | Arweinyddiaeth

| Beth ddylwn i ei wneud? | Pam ddylwn i ei wneud? |
|---|---|
| **Sefydlu presenoldeb addysgwr go iawn a'i gynnal** | Mae'r gofynion a nodir yn yr adran Presenoldeb Addysgwyr yn Adran 1 oll yn cyfrannu tuag at greu ymdeimlad o realaeth. Er enghraifft, yn aml gall ffotograffau tiwtoriaid a chyfathrebu personol helpu dysgwyr i feithrin ymddiriedaeth mewn tiwtor hyd yn oed heb gwrdd ag ef/hi wyneb yn wyneb. Yn yr un modd ag y byddech yn croesawu'ch myfyrwyr yn nosbarth cyntaf cwrs wyneb yn wyneb, gall cyflwyniad cynnes, cyfeillgar helpu myfyrwyr i ymgartrefu a dyma'r cam cyntaf mewn adeiladu amgylchedd dysgu cefnogol ac ymrwymiad i ddysgu. |
| **Cynnal cyfathrebu a rhyngweithio dwyffordd rheolaidd, gan gynnwys adborth rheolaidd** | Mae ar ddysgwyr angen gwybod bod y modwl yn weithredol a bod eu cyfranogiad yn cael ei werthfawrogi. Cyfathrebwch â myfyrwyr yn rheolaidd gan sicrhau eich bod yn rhoi adborth prydlon i gyfraniadau dysgwyr i drafodaethau a gweithgareddau eraill. Sefydlwch blatfform cyfathrebu cyffredin yn gynnar (e.e. Teams gyda dolen o Moodle yn uniongyrchol i'r Tîm, neu fforwm Moodle) gan ei ddefnyddio'n rheolaidd. Mae dialog yn allweddol ar gyfer y broses o adeiladu gwybodaeth drwy ganiatáu i ddysgwyr egluro camdybiaethau ac addasu eu dealltwriaeth. |
| **Cynllunio ymlaen llaw** | Paratowch a llunio cymaint o'ch modwl â phosibl ymlaen llaw. Gallwch guddio adrannau a'u rhyddhau fel y bo'n briodol ar yr adeg iawn, neu pan fydd dysgwyr wedi bodloni trothwyon penodol. Bydd hyn yn rhoi mwy o amser a chyfle i chi fod yn weithredol ac yn bresennol ar y modwl ac i annog, cymell ac ymgysylltu â'ch dysgwyr. |
| **Sicrhau momentwm drwy dracio ac ymyrraeth** | Defnyddiwch y nodwedd Cwblhau Gweithgaredd ym Moodle i dracio i ba raddau mae defnyddwyr yn ymgysylltu â'r modwl, ynghyd â dadansoddeg arall megis ystadegau Panopto. Adolygwch y data'n rheolaidd gan gysylltu â myfyrwyr nad ydynt yn ymgysylltu yn ôl y disgwyl er mwyn cynnal cymhelliad a momentwm. |
| **Dod â chynhesrwydd ac elfen ddynol i'r modwl** | Un o gryfderau unigryw'r Drindod Dewi Sant yw'r gofal bugeiliol a'r sylw personol y mae staff yn eu darparu ar gyfer dysgwyr tra bydd colli ymdeimlad o gymuned a theimlo'n ynysig yn un o bryderon mwyaf dysgwyr mewn amgylchedd ar-lein. Atgyfnerthwch y cryfderau hynny a brwydrwch yn erbyn y pryderon hynny drwy greu profiad dysgu cefnogol, cadarnhaol a chysylltiedig. Mae hwn yn ffurfio rhan allweddol o Degwch a Llesiant, dwy o Egwyddorion Canllaw'r Drindod Dewi Sant. Rhowch flaenoriaeth i ddull cyfeillgar ac empathetig yn hytrach na ffurfioldeb. Peidiwch ag ofni defnyddio tôn sgyrsiol mewn cyfathrebu ysgrifenedig cyhyd â bod y cynnwys yn broffesiynol. Argymhellir bod tiwtoriaid yn galluogi'u gwe-gamera mewn fideo byw a fideo a recordiwyd sy'n ychwanegu personoliaeth ac sy'n gallu rhoi cyd-destun ac ystyr i'r deunydd drwy ystumiau a mynegiant wyneb. |

| Beth ddylwn i ei wneud? | Pam ddylwn i ei wneud? |
|---|---|
| **Dod i adnabod eich dysgwyr gan ddylunio ar gyfer cynhwysiant** | Sefydlwch o'r cychwyn cyntaf a oes gan eich dysgwyr anghenion dysgu ychwanegol, fynediad at dechnoleg neu a ydynt yn agored i niwed mewn ffordd arall. Peidiwch â gwneud rhagdybiaethau am allu dysgwyr i ymgysylltu'n llawn ag adnoddau a chyfathrebiadau ar-lein. Darparwch gefnogaeth a darpariaeth amgen briodol pan fo'n briodol. Bydd hyn yn eich galluogi i ddarparu dysgu o safon uchel, sy'n bersonol ac yn gyfan gwbl hygyrch drwy gynllunio'ch modwl, eich dulliau cyflwyno a'ch mesurau cefnogi fel y bo'n briodol. Mae tegwch o ran cyfle a deilliant yn un o Egwyddorion Canllaw'r Drindod Dewi Sant. |
| **Casglu adborth a'i ddefnyddio** | Yn ychwanegol at y trefniadau adborth ffurfiol ar gyfer y modwl, cysylltwch â dysgwyr yn anffurfiol ac yn rheolaidd gan ofyn iddynt am eu profiadau ar y modwl, yn enwedig yn ystod y tro cyntaf y cynhelir y modwl ar-lein. Defnyddiwch eu hadborth i fireinio eich arfer a chynnal ethos o wella parhaus yn unol ag Egwyddorion Canllaw'r Drindod Dewi Sant o ran Arfer a Seilir ar Ymchwil a Dysgu Proffesiynol |

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# ADRAN 2 ARFER DA

## Sut gallaf i sicrhau dysgu ac addysgu o ansawdd da?

# AMGYLCHEDD DYSGU

Mae angen i ddysgwyr digidol fod yn gyfforddus yn amgylchedd y cwrs a symud o gwmpas yr adnoddau, y sianeli cyfathrebu a'r gweithgareddau'n hyderus. Oherwydd ei bod yn debygol mai'r prif ddull cysylltu a fydd gan ddysgwyr â thiwtoriaid fydd ar-lein, mae angen i'r amgylchedd gynnal a chefnogi'r dysgu gan sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfarwyddiadau eglur ynghylch sut i astudio'r modwl, ac yn deall yr hyn a ddisgwylir ohonynt o ran ymgysylltu, ymddygiad ac ymrwymiadau amser.

**Egwyddorion Canllaw'r Drindod Dewi Sant ar Ddysgu Cyfunol:**

Cwricwlwm | **Addysgeg** | **Tegwch** | **Llesiant** | Ymchwil | Dulliau asesu | Dysgu proffesiynol | Arweinyddiaeth

| Beth ddylwn i ei wneud? | Pam ddylwn i ei wneud? |
|---|---|
| **Sefydlu disgwyliadau eglur, amcanion dysgu a deilliannau targed** | Ar ddechrau'r modwl, eglurwch yr hyn a ddisgwylir o'r dysgwyr, megis yr oriau astudio a awgrymir yn wythnosol, pa weithgareddau sy'n orfodol a chanllawiau ar gyfer ymddygiad priodol. Crynhowch y deilliannau y disgwylir i ddysgwyr eu cyflawni erbyn diwedd y modwl. Yn achos pob gwrthrych dysgu, rhowch syniad o'r amser y bydd yn ei gymryd i ddysgwyr gwblhau tasg. Er enghraifft, a ddisgwylir i dasg ymchwil annibynnol fod yn dasg gyflym i ddod o hyd i ffeithiau cyn sesiwn i'w trafod, neu fod yn brosiect ymchwil mawr? Ydych yn disgwyl iddynt dreulio 2 awr, 2 wythnos neu 2 fis ar dasg? |
| **Caniatáu hyblygrwydd o ran dulliau astudio** | Dylech sylweddoli bod yr holl ddysgwyr yn wahanol a bydd ganddynt ystod eang o fynediad at dechnoleg, gan gynnwys mynediad i'r rhyngrwyd. Wrth osod tasgau i ddysgwyr caniatewch ymatebion ar ffurfiau amrywiol gan osgoi bod yn rhy anhyblyg ynghylch gwneud pethau mewn un ffordd benodol. |
| **Rhoi cyfarwyddiadau eglur, cam wrth gam** | Defnyddiwch yr offeryn Label ym Moodle i ychwanegu testun esboniadol wrth ochr gweithgareddau ac adnoddau er mwyn arwain a chynnal dysgwyr drwy'r profiad dysgu. Darparwch gyfarwyddiadau, disgwyliadau a chyfnodau amser eglur ar gyfer tasgau dysgwyr. |
| **Trefnu'ch modwl yn eglur** | Trefnwch adnoddau a gweithgareddau mewn modd rhesymegol. Gallech ddefnyddio penawdau testun i greu is-adrannau pynciol mewn modd llinol (Darllen 1, Tasg 1 ac ati) neu aflinol (Darllen, Tasgau, Adnoddau Ychwanegol ac ati) fel y bo'n briodol. |
| **Sicrhau llif naturiol drwy bynciau** | Dilynwch a threfnu adnoddau a gweithgareddau er mwyn i ddysgwyr allu dilyn dilyniant naturiol yn hawdd o un i'r llall. Er enghraifft, os ydych yn disgwyl i ddysgwyr gael mynediad at wefan yn syth ar ôl gwylio fideo, trefnwch y dolenni hynny un ar ôl y llall. |
| **Gwneud dyddiadau terfyn asesiadau yn eglur ac yn amlwg** | Sicrhewch fod dyddiadau allweddol yn rhan o gyflwyniadau i bynciau neu aseiniadau, ac nid wedi'u cuddio tu fewn i ddogfennau. Defnyddiwch brint trwm i liwddangos dyddiadau terfyn ymhlith y testun. |

# DYSGU GWEITHREDOL

Yn ogystal â chysylltiad dynol â thiwtoriaid, mae dysgu ar-lein hefyd yn dileu'r tasgau anffurfiol ad-hoc yn yr ystafell ddosbarth lle gall dysgwyr ymarfer ac atgyfnerthu gwybodaeth a dealltwriaeth yn ogystal â'r gymuned ddysgu naturiol a grëir ymhlith cyd-fyfyrwyr a gyda hynny, buddion dulliau dysgu adeileddol. Mae'n hanfodol cynllunio gweithgareddau i wneud dysgwyr yn weithredol yn y modwl, yn unigol ac mewn grwpiau, nid yn unig i gymryd lle'r cyfleoedd adeileddol sydd wedi'u colli, ond hefyd am fod cydweithredu ac yn enwedig cydweithredu drwy dechnoleg yn sgiliau cyflogadwyedd â gwerth uchel.

**Egwyddorion Canllaw'r Drindod Dewi Sant ar Ddysgu Cyfunol:**

**Cwricwlwm** | **Addysgeg** | Tegwch | Llesiant | Ymchwil | **Dulliau asesu** | Dysgu proffesiynol | Arweinyddiaeth

| Beth ddylwn i ei wneud? | Pam ddylwn i ei wneud? |
|---|---|
| **Cynnwys gweithgareddau asesu ffurfiannol** | Mae darparu cyfleoedd i ddysgwyr ymgysylltu'n weithredol â'r pwnc yn allweddol. Mae asesu i hyrwyddo dysgu'n un o Egwyddorion Canllaw'r Drindod Dewi Sant. Fel arall, mae'r cwrs yn troi'n ddim mwy na gwerslyfr amlgyfrwng. Gallai gweithgareddau o'r fath gynnwys:<br>- Postiad i flog<br>- Cwis<br>- Cymryd rhan mewn trafodaeth<br>- Fideo rhyngweithiol ar Clickview<br>- Gweithgaredd H5P rhyngweithiol (e.e. llusgo a gollwng, llenwi'r bylchau)<br>- Cyflwyniad fideo byr gan ddefnyddio Aseiniad Moodle (nid Turnitin) |
| **Darparu cyfleoedd am gydweithredu, rhyngweithio â chyd-fyfyrwyr a gwaith grŵp** | Mae creu ymdeimlad o gymuned yn allweddol i lwyddiant cwrs ar-lein. Defnyddiwch Grwpiau Moodle, sianeli Teams preifat a chydweithredu ar Office 365 er mwyn sefydlu mini-garfanau a gosod tasgau cydweithredol er mwyn atgyfnerthu'r dysgu. |
| **Ystyried "Addysgeg Crëwr/Gwneuthurwr"** | Gall dylunio tasgau i ddysgwyr greu adnoddau i'w rhannu gyda'r holl garfan (er enghraifft blog/wici/llyfr nodiadau OneNote cydweithredol) fod â buddion niferus. Mae esbonio cysyniadau i bobl eraill yn dechneg effeithiol gydnabyddedig i atgyfnerthu dysgu a dealltwriaeth. Mae'n darparu ffynhonnell ddeunydd gyfoethog ar gyfer asesu ffurfiannol parhaus ac ar ôl ei gymedroli ar gyfer cywirdeb, gall helpu i gyfoethogi cynnwys y modwl a darparu safbwyntiau eraill mewn cyrsiau lle nad yw cynnwys trydydd parti ar gael mor hawdd megis cyrsiau cyfrwng Cymraeg neu'r rheini sy'n cwmpasu meysydd arbenigol iawn. |
| **Dylunio gweithgareddau er mwyn galluogi dysgwyr i gymhwyso eu dysgu** | Pan fo'n berthnasol, defnyddiwch senarios a thasgau dysgu seiliedig ar broblemau er mwyn rhoi cyd-destun i'r dysgu, gan ganiatáu i'r dysgwyr hunan-asesu a thynnu sylw at unrhyw gamdybiaethau cyffredin. Mae'n effeithiol iawn hefyd darparu cyfleoedd i ddysgwyr ystyried pwnc o fewn eu cyd-destun personol eu hun. Nid yn unig y mae hyn yn helpu i atgyfnerthu'r dysgu drwy ddarparu perthnasedd a chymhwyso ymarferol ond hefyd gall annog trafodaeth drwy ddarparu meddyliau a phrofiadau y mae modd ymdeimlo â nhw ac y gallai fod yn haws i ddysgwyr eu deall a'u rhannu. Gall dysgwyr hefyd gael budd drwy gymharu eu safbwyntiau eu hun â chyd-fyfyrwyr mewn cyd-destunau tebyg a gwahanol. Mae'r hunan-asesu adfyfyriol hwn yn faes arall lle mae'r Egwyddor Ganllaw Asesu i hyrwyddo dysgu'n berthnasol. |